

# Ymatebion i Ymgynghoriad Brownhill

## Trosolwg

Cawsom gyfanswm o 117 o ymatebion. Roedd y rhain ar-lein (ar Citizen Space), yn ein digwyddiad galw heibio a thrwy e-byst a llythyrau. Cawsom 68 o ymatebion i'r arolwg a oedd yn rhoi cyfle i fewnbynnu sylwadau 'testun rhydd', ac roedd y gweddill yn sylwadau cyffredinol am y cynlluniau.


## Ymatebion i'r Arolwg

Cwblhaodd 55 o bobl gwestiynau'r arolwg, cymysgedd o ymateb ar-lein (ar Citizen Space) ac yn y digwyddiad galw heibio.

### Cwestiwn Un

Yn eich barn chi, beth yw'r peth pwysicaf i'w ystyried wrth greu coetir newydd?

Dywedodd ymatebwyr mai bioamrywiaeth oedd y peth 'mwyaf pwysig', ac yna Llifogydd ac Ansawdd Dŵr, yna Newid yn yr Hinsawdd, Tirwedd a Mynediad Cyhoeddus oedd y 'lleiaf pwysig'.




### Cwestiwn Dau

Yn eich barn chi, beth yw'r peth pwysicaf i'w ystyried wrth greu coetir newydd ar y safle hwn?

Bioamrywiaeth oedd y peth 'mwyaf pwysig' o hyd ond gyda llai o fwllch rhyngddo a'r lleill; roedd Llifogydd yn ail a'r Newid yn yr Hinsawdd yn drydydd, ac yna Ansawdd Dŵr, Tirwedd a Mynediad i'r Cyhoedd.

Ystyriwyd bod y Newid yn yr Hinsawdd yn bwysicach nag Ansawdd Dŵr wrth ystyried creu coetir newydd yn Brownhill.

Yn eich barn chi, beth yw'r peth pwysicaf i'w ystyried wrth greu coetir newydd ar y safle hwn?




Cwestiwn Tri

Pa mor aml fydddech chi'n ymweld â'r safle?

Bob wythnos oedd yr ateb mwyaf cyffredin (31%), ac yna bob blwyddyn (18%). Ni chafwyd ymateb gan tua 12% o'r ymatebwyr.


Bob dydd	6%
Bob wythnos	31%
Bob mis	12%
Bob blwyddyn	18%
Achlysuron arbennig	2%
Byth	2%
Arall	12%
Dim ymateb	18%



Cwestiwn Pedwar

Sut fydddech chi'n teithio i'r safle pan fyddwch yn ymweld?


Byddai bron i ddau draean o ymatebwyr yn teithio i'r safle mewn car/beic modur, a byddai chwarter yn mynd i'r safle ar droed.



### Cwestiwn Pump

Yn eich barn chi, beth sydd bwysicaf ar gyfer mynediad i'r cyhoedd?


Llwybrau pob tywydd oedd y peth 'mwyaf pwysig', ac yna maes parcio, meinciau, byrddau picnic ac yna safle bws. Roedd 'Arall' yn cynnwys biniau, mynediad i geffylau, arwyddion a hefyd ardaloedd ar gyfer bywyd gwyllt yn unig.



### Cwestiwn Chwech

Hoffech chi gymryd rhan mewn unrhyw ddigwyddiadau yn y dyfodol?

Digwyddiad plannu untro i greu'r coetir	33%
'Partion gwaith' gwirfoddol rheolaidd i ofalu am y safle	20%
Dod yn aelod o grŵp 'Cyfeillion...' er mwyn gallu dylanwadu ar sut y rheolir y safle	31%
Arall	14%



## Adborth Cyffredinol

Clywsom amrywiaeth o sylwadau, pryderon, cwestiynau a syniadau cyffredinol. Mae'r rhain wedi'u rhannu'n gategoriâu eang ac fe'u cynrychiolir isod. Gwnaeth y rhan fwyaf o bobl sylwadau ar amrywiaeth o bynciau, rydym wedi defnyddio'r ymatebion hyn i lywio sut y byddwn yn ymdrin â'r cylch ymgynghori nesaf.

## Sylwadau wedi'u rhannu'n categorïau eang

